

# Plygio mewn i'r Dyfodol

## Helpu Cymru i fanteisio'n ddiogel ar y chwyldro EV

Mawrth 2022

Yn ystod **Wythnos Diogelwch Trydanol Cymru** rhwng 14-20 Mawrth 2022, bydd yr elusen *Electrical Safety First* yn tynnu sylw at Gerbydau Trydan (EV) a phwysigrwydd gwefru'n ddiogel. Yn ôl ein hymchwil, mae **bron i 75% o yrwyr EV<sup>1</sup>** wedi gwefru eu ceir mewn ffordd beryglus, gyda rhai'n defnyddio 'cêbl ymestyn' yn y glaw sy'n **cyflwyno risg o dân a sioc drydan**.

Gwefru EV yn y cartref yw'r ffordd fwyaf hwylus o wefru ond mae llawer sydd heb le i barcio ceir oddi ar y ffordd yn methu â gwefru'n ddiogel oherwydd y rhwystrau i osod pwynt gwefru pwrpasol. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos pobl sy'n byw mewn tai teras neu fflatiau.

Mae *Electrical Safety First* yn poeni, **heb ddigon o bwyntiau gwefru cyhoeddus cyfleus a dibynadwy**, y bydd llawer o yrwyr EV yn gorfod gwefru eu ceir o soced yn y tŷ er gwaetha'r peryglon diogelwch - hyd yn oed os oes raid rhedeg cebl ymestyn ar draws llwybr troed yn y glaw.

I atal hyn, rhaid i awdurdodau lleol weithio'n agos â Llywodraeth Cymru i sicrhau y gall pob gyrrwr EV yng Nghymru wefru'n ddiogel drwy ddarparu atebion a seilwaith ar sail angen lleol – er enghraifft drwy hybiau gwefru neu bwyntiau gwefru ar y stryd.

Galwn ar Aelodau'r Senedd i weithio gyda *Electrical Safety First* i sicrhau bod etholwyr yn ymwybodol o'r peryglon sy'n gysylltiedig â gwefru'n beryglus a thrafod beth arall y gellir ei wneud, yn lleol a chenedlaethol, i sicrhau bod gan bawb rywle diogel i wefru ceir EV lle bo angen arnynt.

### Negeseuon Allweddol

- Heb rywle cyfleus a dibynadwy i wefru'n gyhoeddus, bydd llawer o yrwyr EV yn gorfod troi at ffyrdd peryglus o wefru eu ceir – **mae 74% o yrwyr EV** wedi cyfaddef defnyddio **ffyrdd peryglus o wefru**.
- Nid yw'n bosib i lawer o gartrefi, fel rhai sy'n byw mewn tai teras neu fflatiau, osod eu gwefrwr EV pwrpasol eu hunain, gan orfod dibynnu ar wefrwyr cyhoeddus.
- Mae *Electrical Safety First* yn galw ar Aelodau'r Senedd i alw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol i ehangu'r rhwydweithiau o bwyntiau gwefru cyhoeddus lleol a chenedlaethol, i leihau gwefru peryglus.
- Dylid canolbwyntio'r cymorth ar yr ardaloedd ble y mae nifer isel eisoes o bwyntiau gwefru. Dylid ystyried gwneud ymarfer mapio i sicrhau bod y gwaith o ddarparu prosiectau yn y dyfodol yn cael ei gydlynu ac nad oes unrhyw wahaniaeth ar sail daearyddiaeth yn cael ei greu.

---

<sup>1</sup> Ymchwil defnyddwyr a wnaed gan *Electrical Safety First* yn 2021

### ***Amdan Electrical Safety First***

Mae *Electrical Safety First* yn elusen traws-DU sy'n ymrwymedig i leihau nifer y marwolaethau, anafiadau a damweiniau a achosir gan drydan yn y cartref. I gefnogi ein cenhadaeth, cynhaliwn Wythnos Diogelwch Trydan Cymru sy'n ceisio helpu i warchod pobl rhag peryglon trydanol yng Nghymru.

#### **Manylion Cyswllt:**

Os hoffech dderbyn mwy o fanylion am y briff hwn cysylltwch â:

[Policy@ElectricalSafetyFirst.org.uk](mailto:Policy@ElectricalSafetyFirst.org.uk)